



The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

## **Gwneud eich apêl**

---

# **Sut i lenwi eich ffurflen apêl Ardoll Seilwaith Cymunedol - CYMRU**

RHAG 2018

## Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad .....	3
Cais am gostau apêl .....	3
Dogfennau .....	4
Llenwi'r ffurflen apêl .....	6
Adran A .....	7
Adran B .....	7
Adran C .....	7
Adran Ch .....	7
Adran D .....	7
Adran Dd .....	9
Adran E .....	9
Adran F .....	9
Adran Ff .....	10
Y Gymraeg.....	10
Cysylltu â ni .....	11
Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol .....	11
Atodiad 1 – Diagram o'r broses .....	13

Os hoffech gael copi o'r canllaw hwn yn Saesneg, gallwch ddod o hyd iddo ar dudalen Apeliadau a cheisiadau cynllunio llyw.cymru yn <https://beta.llyw.cymru/yr-arolygiaeth-gynllunio>. Fel arall, gallwch gysylltu â ni ar 0303 444 5940. Hefyd, gallwch ofyn am y canllaw mewn print bras neu Braille.

## Cyflwyniad

Gallwch gyflwyno apêl i'r Arolygiaeth Gynllunio o dan Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 ar y materion canlynol:

**Rheoliad 117** – Gosodwyd gordal ac:

- a) ni ddigwyddodd y toriad honedig a arweiniodd at y gordal; neu
- b) methodd yr awdurdod casglu â chyflwyno hysbysiad atebolrwydd mewn cysylltiad â'r datblygiad y codir tâl arno y mae'r gordal yn berthnasol iddo; neu
- c) cyfrifwyd y gordal yn anghywir.

**Rheoliad 118** – Mae'r awdurdod casglu wedi cyhoeddi hysbysiad galw am dalu gyda dyddiad cychwyn tybiedig a bennwyd yn anghywir.

**Rheoliad 119** – Gosodwyd hysbysiad atal Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) ac:

- a) ni chyflwynodd yr awdurdod casglu hysbysiad rhybuddio cyn gosod yr hysbysiad atal ASC; neu
- b) nid yw'r datblygiad y gosodwyd yr hysbysiad atal ASC arno wedi dechrau.

Nid yw'r Arolygiaeth Gynllunio yn gallu derbyn unrhyw apelïadau eraill yn ymwneud â thâl ASC.

Cyn i chi wneud eich apêl, dylech fynd i drafodaethau â'r awdurdod casglu/codi tâl. Dylai'r broses apelio gael ei hystyried yn ddewis olaf, i'w defnyddio dim ond lle mae pob ymdrech wedi methu o ran dod i ganlyniad sy'n dderbyniol i'r naill ochr a'r llall. Rydym yn eich annog i barhau â'r trafodaethau hyn, hyd yn oed yn ystod yr apêl ei hun.

Rhaid i ni dderbyn eich apêl a'ch dogfennau ategol hanfodol:

- Apeliadau Rheoliad 117 – **o fewn 28 diwrnod** o'r dyddiad y gosodwyd y gordal.
- Apeliadau Rheoliad 118 – **o fewn 28 diwrnod** o'r dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad galw am dalu
- Apeliadau Rheoliad 119 – **o fewn 60 diwrnod** o'r dyddiad y daw'r hysbysiad atal ASC i rym.

Os nad ydym yn derbyn eich apêl a'ch dogfennau o fewn y terfyn amser hwn, ni fyddwn yn derbyn eich apêl.

## Cais am gostau apêl

Fel rheol mae'n rhaid i chi a'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) dalu eich treuliau apêl eich hun. Os nad yw parti yn ymddwyn yn rhesymol, maen nhw'n gadael eu hunain yn agored i ddyfarnu costau yn eu herbyn. Byddai hyn ar y sail bod yr ymddygiad wedi achosi'n uniongyrchol i barti arall fynd i dreuliau na fyddent wedi bod yn angenrheidiol fel arall.

Gellir dyfarnu costau mewn ymateb i gais am gostau gan un o'r partïon. Hefyd, gall yr Arolygydd ddyfarnu costau hyd yn oed os nad yw'r naill barti neu'r llall wedi gwneud cais.

Os ydych yn gwneud cais am gostau gyda'ch apêl, dylech nodi hyn ar y ffurflen apêl. Mae canllawiau ynghylch dyfarnu costau yn Adran 12 Llawlyfr Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru:

<https://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/development-management-manual-without-annexes/?lang=cy>

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y canllaw hwn oherwydd mae'n esbonio sut, pryd ac ar ba sail y gallwch wneud cais neu y gellir gwneud cais yn eich erbyn.

Eich dyletswydd chi yw sicrhau bod cais am gostau a gadarnheir yn briodol yn cael ei wneud ar yr adeg briodol. Nid yw rhoi rhybudd o fwriad yn cyfiawnhau cais hwyr am gostau.

## Canllawiau ar gyfer Cyflwyno Dogfennau

Nid oes unrhyw wahaniaeth os dewiswch gyflwyno eich apêl drwy'r post neu drwy e-bost, bydd angen i chi ddarparu dogfennau ategol i ni. Er mwyn darparu gwasanaeth teg, agored, diduedd ac amserol, mae'r Arolygiaeth yng Nghymru yn cyhoeddi dogfennau apeliadau ar y Porth Gwaith Achos Apeliadau drwy ein system reoli gwaith achos.

Er mwyn i ni allu darparu'r gwasanaeth hwn, gofynnwn i chi roi sylw i'r wybodaeth ganlynol a darparu dogfennau i ni yn y fformat a nodir.

<b>Fformatio</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ar gyfer dogfennau wedi'u teipio, dylech ddefnyddio ffont sans serif, ac mae enghreifftiau o'r fath yn cynnwys Arial a Verdana, a dylai'r ffont gael ei osod i faint 11 neu fwy.</li><li>• Os ydych yn llenwi unrhyw ddogfennau â llaw, dylech ddefnyddio priflythrennau ac inc du. Mae'r pwynt hwn a'r pwynt uchod yn gwneud dogfennau yn haws eu darllen ar gyfer staff swyddfa sy'n gyfrifol am eich apêl a'r Arolygydd a ddyrennir ar gyfer eich apêl. Hefyd, mae hyn yn cynhyrchu delwedd wedi'i sganio'n sy'n well at ddibenion cyhoeddi.</li><li>• Dylech sicrhau eich bod yn rhifo pob tudalen yn briodol.</li><li>• Defnyddiwch bapur A4 lle bynnag y bo modd.</li><li>• Sicrhewch fod dogfennau wedi'u llungopïo yn glir ac yn ddarllenadwy.</li><li>• Argraffwch ddogfennau ar ddwy ochr y dudalen. Dylech ddefnyddio papur o ansawdd digon da fel nad yw rhywbeth a argraffir ar un ochr y dudalen yn dangos drwodd i'r ochr arall.</li><li>• Sicrhewch fod graddfa, cyfeiriadau a maint papur unrhyw fapiau a chynlluniau yn cael eu dangos yn glir.</li><li>• Os ydych yn atgynhyrchu map neu gynllun, sicrhewch fod y copi rydych chi'n ei anfon wedi'i argraffu i raddfa.</li><li>• Anfonwch luniau, ffotograffau, cynlluniau, mapiau neu ddyluniadau fel ffeiliau unigol. Dylech osgoi defnyddio delweddau bitmap gan eu bod yn fawr iawn.</li></ul>
------------------	---

<b>Fformatau derbyniol ar gyfer ffeiliau</b>	PDF .pdf Microsoft Word .doc neu .docx TIF .tif neu .tiff JPEG .jpg neu .jpeg ZIP .zip
<b>Maint ffeiliau</b>	<p>Dylai ddogfennau a gyflwynir drwy'r Porth Gwaith Achos Apeliadau beidio â bod yn fwy na 5mb yr un. Dylid cadw dogfennau a gyflwynir ar ddisg/gyriant USB o dan 15mb lle bynnag y bo modd er mwyn sicrhau y gallwn eu cyhoeddi. Eich cyfrifoldeb chi yw cadw eich dogfennau i faint hydrin.</p> <p>Os oes gennych ddogfennau sy'n fwy o faint na hyn, gallwch geisio'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhannu dogfennau hir rhwng nifer o ffeiliau, ond noder y confensiynau isod ar gyfer enwi dogfennau.</li> <li>• Defnyddio du a gwyn lle bynnag y bo modd (ac eithrio cyflwyno ffotograffau).</li> <li>• Os ydych yn cyflwyno delweddau, mae'n bosibl y bydd eich meddalwedd yn cynnwys cyfleusterau cywasgu ffeiliau/delweddau i'w gwneud yn llai o faint.</li> <li>• Fel arfer, mae dogfennau wedi'u sganio yn fwy o faint na fersiynau heb eu sganio.</li> <li>• Ar yr amod eich bod yn defnyddio'r mathau derbyniol o ffeiliau a nodir uchod, gallwch ddefnyddio ffeiliau ZIP i gywasgu dogfennau.</li> <li>• Os oes gennych ffeil fawr, ac yn methu â defnyddio'r opsiynau a restrir, gallwch anfon unrhyw beth hyd at 10mb at <a href="mailto:cymru@pins.gsi.gov.uk">cymru@pins.gsi.gov.uk</a></li> </ul>
<b>Diogelwch</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylech ddileu unrhyw nodweddion diogelwch ar ddogfennau a galluogi macros os oes angen. Ni ddylai dogfennau fod wedi'u gwarchod gan gyfrinair, ni ddylid eu fformatio fel 'darllen yn unig', a dylid galluogi argraffu a golygu.</li> <li>• Bydd angen ailgyflwyno dogfennau sy'n atal argraffu a swyddogaethau eraill mewn fformat y gellir ei ddefnyddio.</li> </ul>
<b>Hawlfraint</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhewch fod gennych ganiatâd y perchennog a'ch bod wedi talu unrhyw ffi drwydded hawlfraint cyn anfon dogfennau.</li> <li>• Gall pobl sganio map Arolwg Ordnans dim ond os: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ganddynt drwydded flynyddol i wneud copïau; neu</li> <li>▪ Maent wedi prynu trefniant copïau niferus; neu</li> <li>▪ Maent yn defnyddio map a ddarperir gan awdurdod cynllunio lleol / awdurdod perthnasol o dan y 'cynllun dychwelyd mapiau' (fel arfer, mae ffi yn daladwy am hyn, yn ôl disgrisiwn yr awdurdod cynllunio lleol / awdurdod perthnasol), neu</li> <li>▪ Maent wedi prynu'r map penodol i'r safle o'r Porth Cynllunio at ddibenion atodi cais cynllunio, apêl neu sylwadau.</li> </ul> </li> </ul>

	<p>Mae rhagor o wybodaeth am drwyddedu mapiau ar gael ar wefan yr Arolwg Ordnans:  <a href="http://www.ordnancesurvey.co.uk/support/licensing.html">http://www.ordnancesurvey.co.uk/support/licensing.html</a></p>
<b>Enwau ffeiliau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhewch fod gan bob dogfen enw disgrifiadol sy'n cynnwys y math o ddogfen rydych yn ei hanfon, e.e. <i>'Cynllun a gynigir 1 Mawrth 2017'</i>.</li> <li>• Rhowch rifau i atodiadau a'u cyflwyno fel dogfennau ar wahân. Sicrhewch fod y dudalen gyntaf yn cynnwys rhif yr atodiad. Rhowch iddynt enwau sy'n nodi'r hyn y maent yn rhan ohono, a'u dilyniant, e.e. <i>'Datganiad apêl Atodiad 2 Cyfrifiad traffig'</i>.</li> <li>• Defnyddiwch <i>'Rhan 1'</i>, <i>'Rhan 2'</i> ac ati mewn enwau ffeiliau os ydych wedi rhannu dogfen fawr, e.e. <i>'Datganiad apêl yn Atodiad 1 Aseiad Amgylcheddol Rhan 1 o 3'</i>.</li> <li>• Dylech gynnwys y maint papur gofynnol yn enw'r ddogfen ar gyfer cynlluniau a dyluniadau, e.e. <i>'Cynllun a gynigir maint A3 1 Mawrth 2017'</i>.</li> <li>• Dylech gynnwys bar/barrau graddfa ar bob cynllun a dyluniad.</li> <li>• Peidiwch â defnyddio colon ':' mewn unrhyw enwau ffeiliau.</li> </ul>
<b>Peidiwch ag</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anfon dogfennau gwreiddiol oni bai ein bod yn gofyn amdanynt.</li> <li>• Rhwymo dogfennau fel eu bod</li> <li>• Darparu ffotograff o ddogfen yn lle delwedd wedi'i sganio; fel arfer, mae'r manylion sydd eu hangen yn annarllenadwy pan wneir hyn.</li> <li>• Darparu un ddogfen electronig sy'n cynnwys eich holl ddogfennau apêl mewn un ffeil.</li> <li>• Defnyddio hyperddolenni o fewn dogfennau a anfonwch atom. Yn lle hynny, dylech lawrlwytho dogfennau o'r fath a'u hatodi ar wahân.</li> <li>• Rhoi hyperddolenni i dudalen gwefan sy'n cynnwys nifer o ddogfennau neu ddolenni.</li> <li>• Defnyddio taflenni clawr, cloriau neu rwymynnau eraill nad ydynt yn ychwanegu unrhyw werth na gwybodaeth.</li> <li>• Cynnwys nodiadau hunanadlynol neu atodiadau bach a allai gael eu symud neu eu colli'n hawdd.</li> </ul>

## Llenwi'r ffurflen apêl

Gallwch naill ai:

- argraffu ffurflen wag, ei llenwi â llaw a'i phostio atom;
- llenwi'r ffurflen yn electronig, ei hargraffu a'i phostio atom; neu
- llenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon drwy e-bost atom yn [cymru@pins.gsi.gov.uk](mailto:cymru@pins.gsi.gov.uk).

Fel arall, gallwch gysylltu â ni a byddwn yn anfon copi o'r ffurflen apêl atoch drwy'r bost neu e-bost.

Os ydych yn llenwi ffurflen apêl â llaw, gwnewch hynny gan ddefnyddio **PRIFLYTHRENAU** ac **inc du**.

Mae'r ffurflenni apêl wedi'u cynllunio i fod mor syml a hunanesboniadol ag y bo modd. Fodd bynnag, mae rhai rhannau sy'n gofyn am wybodaeth bellach er mwyn eu deall yn well. Mae'r adran ganlynol yn edrych ar rai o'r adrannau hyn. Os nad fyddwch yn dod o hyd i'r wybodaeth a geisiwch, cysylltwch â'r Arolygiaeth ar **0303 444 5940** neu [cymru@pins.gsi.gov.uk](mailto:cymru@pins.gsi.gov.uk).

## **ADRAN A**

### **Manylion yr apelydd**

Enw

Os yw'r apêl yn erbyn rhybudd galw am dalu sydd â dyddiad cychwyn tybiedig a bennwyd yn anghywir (Rheoliad 118), dim ond y person a gyflwynwyd â'r hysbysiad galw am dalu sydd â'r hawl i apelio. Yn achos mathau eraill o apelïadau, gall unrhyw un apelio.

## **ADRAN B**

### **Manylion asiant (os oes un) ar gyfer yr apêl**

Nid oes rhaid i chi gyflogi asiant i drin eich apêl. Os byddwch yn penderfynu cyflogi asiant, mae'n debygol y byddant yn llenwi'r ffurflen apêl ar eich rhan.

Os oes gennych asiant, byddwn yn anfon ein holl gyfathrebiadau at yr asiant. Ni fyddwn yn anfon copi atoch chi. Dylech sicrhau eich bod yn cadw mewn cysylltiad â'ch asiant ynghylch trefniadau'r apêl.

## **ADRAN C**

### **Manylion yr awdurdod a'r cais**

Dylech roi enw'r awdurdod casglu (a'r awdurdod codi tâl os yw hyn yn wahanol). Hefyd, dylech roi manylion y cais cynllunio sy'n berthnasol i'r tâl ASC.

## **ADRAN CH**

### **Cyfeiriad safle'r apêl**

Os nad oes cod post gan safle'r apêl, rhowch god post yr adeilad agosaf. Rhowch wybodaeth i'n helpu i ddod o hyd i'r safle, e.e. map neu gynllun sy'n dangos y safle ac o leiaf 2 ffordd leol wedi'u henwi neu â'u rhifau

## **ADRAN D**

## Manylion ymweliad â'r safle

Ar rai achlysuron bydd angen i Arolygydd ymweld â safle. Byddwn yn defnyddio eich ymatebion i'r cwestiynau hyn i'n helpu i benderfynu sut y dylid cynnal unrhyw ymweliad â'r safle.

### Iechyd a diogelwch ar y safle

Mae'n debygol y bydd y safle'n cael ei arolygu yn ystod yr apêl ac mae angen i'r Arolygydd fod yn ymwybodol o unrhyw broblemau posibl. Mae'r cwestiynau canlynol yn nodi'r math o wybodaeth sydd ei hangen arnom am safle'r apêl, megis cyflwr y tir neu unrhyw adeilad y mae'n rhaid mynd i mewn iddo.

Rydym yn cymryd ein dyletswyddau o ddifrif o ran iechyd a diogelwch ein gweithwyr a'r sawl a effeithir gan ein gwaith. Mae'n bosibl y bydd arolygwyr yn terfynu'r ymweliad â'r safle os yw'r amgylchiadau ar y safle yn anfoddhaol. Felly, gall methiant i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol arwain at oediad i'ch apêl.

1. A ddisgwylir i'r Arolygydd wisgo Offer Diogelu Personol? Rhwch fanylion.
2. A oes unrhyw waith adeiladu neu weithrediadau eraill yn digwydd ar y safle? Os yw'n weithle, a oes asesiad risg yn ei le ar gyfer ymwelwyr?
3. A oes unrhyw anifeiliaid (e.e. anifeiliaid anwes neu dda byw) o fewn y safle? Os felly, rhaid i chi sicrhau y bydd pob anifail (boed yn dda byw neu'n anifeiliaid anwes) yn cael eu cadw i ffwrdd o'r man lle cynhelir yr ymweliad.
4. A yw'r safle'n anghysbell neu mewn ardal sy'n debygol o fod â signal ffôn symudol gwael?
5. A oes unrhyw fannau lle mae angen offer neu hyfforddiant arbenigol ar gyfer cael mynediad, e.e. lleoedd cyfyng neu ddefnydd o ysgolion/sgaffaldiau? Os defnyddir ysgol, rhaid i chi esbonio pam a rhoi manylion yr uchder dan sylw a'r trefniadau ar gyfer diogelu'r ysgol.
6. A oes angen i'r Arolygydd fod yn ymwybodol o beryglon penodol o fewn y safle? Byddai hyn yn cynnwys arwynebau anwastad, offer neu sylweddau a gedwir ar y safle, risg o ddod i gysylltiad â chemegau, asbestos neu ymbelydredd.
7. A fydd angen edrych ar y safle o uchder, e.e. to, balconi? A oes unrhyw reiliau neu ddulliau gwarchod yn eu lle?
8. A oes unrhyw drefniadau diogelwch ar waith sy'n benodol i'r safle?
9. A yw'r safle'n hygyrch i bobl â symudedd cyfyngedig?
10. A oes unrhyw lystyfiant sydd wedi gordyfu a allai gyfyngu ar fynediad i'r safle? Os felly, bydd angen i chi sicrhau y gwneir y safle'n hygyrch i'n Harolygydd ac unrhyw bobl eraill a fydd gyda hwy.

Hefyd, rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau perthnasol i'r safle sy'n digwydd yn y cyfnod yn arwain at y dyddiad a drefnir ar gyfer yr ymweliad â'r safle.



## **ADRAN DD**

### **Rheswm dros apelio**

Dylech ddewis pa un o'r rhesymau dros apelio sy'n berthnasol i chi. Os yw mwy nag un rheswm yn berthnasol, gallwch ddewis mwy nag un opsiwn.

## **ADRAN E**

### **Mae'n bwysig eich bod yn cyflwyno eich seiliau llawn dros apelio wrth gyflwyno'r apêl gan mai dyma'r unig gyfle i chi wneud hynny.**

Dylech osod allan eich holl seiliau dros apelio, yn glir ac yn gryno gan ganolbwyntio ar deilyngdod eich dadl. Dylech osgoi ailadrodd a hepgor gwybodaeth nad yw'n ymwneud â'r materion dan sylw. Dylai'r seiliau dros apelio fod yn glir ac yn gryno ac ni ddylid mynd y tu hwnt i 3,000 o eiriau, fel arfer. Dylid cynnwys cyn lleied ag y bo modd o unrhyw ddogfennau ategol ac eithrio'r rhai a restrir yn Adran F a dylai unrhyw ddogfennau ategol fod yn hanfodol ac yn uniongyrchol berthnasol i'r apêl. Dylid croesgyfeirio dogfennau o'r fath yn glir yn y seiliau dros apelio.

Mae'n bosibl y byddwch eisiau cyflwyno atodiadau i'ch seiliau dros apelio. Gall y rhain gynnwys adroddiadau a gwybodaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r mater sy'n destun anghydfod. Ni ddylid defnyddio atodiadau niferus.

Os ydych o'r farn bod cyflwyno trywyddau e-bost yn hanfodol i gefnogi eich seiliau dros apelio, dylech ystyried a yw'r neges e-bost olaf mewn trywydd yn cynnwys y pwyntiau allweddol – felly byddai angen i chi ddarparu'r neges honno'n unig. Os nad yw hyn yn bosibl, dylech groesi allan unrhyw ailadrodd mewn negeseuon e-bost cysylltiedig fel y gellir nodi'r pwyntiau allweddol yn glir.

Gallwch ddefnyddio ffotograffau (lliw, yn ddelfrydol) i ddarlunio eich seiliau dros apelio. Os ydych yn cyflwyno ffotograffau, rhaid i chi roi manylion lle cawsant eu cymryd, ar fap sy'n dangos y golygfannau, a phryd y'u cymerwyd, a'r hyn y maent yn ei ddangos. Os byddwch chi'n cymryd ffotograffau mewn mannau cyhoeddus, dylech gymryd gofal rhesymol i barchu preifatrwydd unigolion y gallech fod wedi dal eu delweddau yn anfwriadol.

## **ADRAN F**

### **Dogfennau ategol hanfodol**

Rydym wedi rhestru'r dogfennau sydd eu hangen ar hyn o bryd ar y ffurflen apêl. Rhaid i chi anfon atom yr holl ddogfennau sydd eu hangen ar gyfer y math o apêl/apeliadau dan sylw ynghyd â'r eitemau a restrir o dan "POB APÊL".

Os na fyddwn yn derbyn pob un o'ch dogfennau apêl hanfodol erbyn diwedd y cyfnod apelio, ni fyddwn yn gallu symud ymlaen â'r apêl a byddwch yn colli eich hawl i apelio. Nid ydym yn 'mynd ar drywydd' dogfennau coll, felly sicrhewch eich bod wedi anfon popeth atom; os na, bydd eich apêl yn cael ei gohirio neu o bosibl ei gwrthod.

Sicrhewch eich bod wedi rhestru'r holl gynlluniau/dyluniadau a anfonwch atom a'u bod yn nodi graddfa, cyfeiriadau a maint papur.

## **ADRAN FF**

### **Apeliadau eraill**

Os ydych wedi gwneud unrhyw apeliadau eraill cysylltiedig ac yn aros am benderfyniad ar gyfer y safle hwn neu safleoedd eraill cyfagos, rhowch y cyfeirnodau.

### **Manylion Personol**

#### ***Manylion Personol yr Apelydd/Manylion Personol yr Asiant***

Ni fydd manylion personol a roddir ar y dudalen hon yn cael eu cyhoeddi.

### **E-bost**

Os ydych yn ticio'r blwch i ddweud ei bod yn well gennych i ni gysylltu â chi drwy e-bost, byddwn yn anfon ein llythyrau atoch drwy e-bost ac ni fyddwn yn anfon copïau papur.

### **Dewis iaith**

Os ydych yn ticio'r blwch i ddweud mai eich dewis iaith yw Cymraeg neu Saesneg, byddwn yn gohebu â chi yn yr iaith honno drwy gydol cyfnod yr apêl.

### **Y Gymraeg**

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn hyrwyddo ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg yn ei holl waith yng Nghymru. Rydym yn croesawu cyfathrebiadau yn Gymraeg, yn ddwyieithog neu'n Saesneg a byddwn yn gohebu â chi yn eich dewis iaith a nodir, yn unol â'n rhwymedigaethau fel y gosodir allan yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

Os hoffech gael copi o'r ddogfen hon yn Saesneg, gellir ei chael ar-lein yn: Fel arall, gallwch anfon neges e-bost at [cymru@pins.gsi.gov.uk](mailto:cymru@pins.gsi.gov.uk) neu ffonio **0303 444 5940** i ofyn am gopi.

### **Gwirio, llofnodi a dyddio**

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb defnyddiol o'r pethau y mae angen i chi fod wedi'u gwneud. Gwiriwch yn ofalus eich ffurflen wedi'i llenwi, ac wedyn llofnodwch a dyddiwch y ffurflen.

---

### **Nawr anfonwch**

Nodwch fod yn **rhaidd i ni dderbyn** eich ffurflen apêl a **phob** dogfen ategol o fewn y terfyn amser o 28 neu 60 diwrnod. Felly, gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon eich apêl mewn da bryd cyn y terfyn amser.

## Cysylltu â ni

**Yr Arolygiaeth Gynllunio**  
**Adeilad y Goron**  
**Parc Cathays**  
**Caerdydd**  
**CF10 3NQ**

E-bost: [wales@pins.gsi.gov.uk](mailto:wales@pins.gsi.gov.uk) ; [cymru@pins.gsi.gov.uk](mailto:cymru@pins.gsi.gov.uk)  
Ffôn: **0303 444 5940**

## Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Rydym yn derbyn gwybodaeth bersonol gan yr apelydd, yr ACLI /awdurdod codi tâl /awdurdod casglu a phersonau â buddiant eraill sy'n darparu sylwadau. Fel arfer, mae'r wybodaeth bersonol yn cynnwys enw a manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth bersonol arall sydd wedi'i chynnwys yn eu sylwadau.

Rydym yn anfon copi o'r sylwadau a dderbyniwn at yr apelydd, yr awdurdod perthnasol ac unrhyw bartion statudol eraill i'r apêl. Hefyd, bydd sylwadau yn agored i'w harchwilio yn swyddfa'r awdurdod lle gall unrhyw un ofyn i'w gweld. Mae'n bosibl y bydd penderfyniad yr Arolygydd yn cael ei gyhoeddi hefyd ar LLYW.CYMRU.

## Gwybodaeth bellach

Ceir gwybodaeth bellach am ein polisi preifatrwydd ar y Porth Gwaith Achos Apeliadau:

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/564820/Privacy\\_and\\_Cookies\\_Statement\\_01\\_11\\_16.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/564820/Privacy_and_Cookies_Statement_01_11_16.pdf) neu ar gais. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein polisi, neu os ydych yn dymuno gofyn am eich data personol, cysylltwch â ni.

## Cael Cymorth

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn bodoli fel corff diduedd; fel y cyfryw, ni allwn roi cyngor cynllunio i bartion. Os hoffech gael cymorth i gymryd rhan mewn apêl ac ni allwch ddod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnoch yn y canllaw hwn, gallwch gysylltu â Chymorth Cynllunio Cymru.

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn fudiad elusennol annibynnol sy'n darparu gwasanaeth cynghori annibynnol am ddim ar faterion Cynllunio Gwlad a Thref i bobl a grwpiau na allant fforddio cynrychiolaeth broffesiynol. Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn gweithredu meini prawf cymhwysedd er mwyn iddynt sicrhau bod eu gwasanaethau'n cael eu

darparu i'r bobl sydd fwyaf eu hangen. Mae'n bosibl yr hoffech gyfeirio at y rhain cyn mynd atynt.

Gellir cysylltu â nhw yn y cyfeiriad canlynol:

**Cymorth Cynllunio Cymru**  
**Llawr Cyntaf**  
**174 Heol yr Eglwys Newydd**  
**Y Mynydd Bychan**  
**Caerdydd**  
**CF14 3NB**

Ffôn: **02920 625 000**

Gwefan: [www.planningaidwales.org.uk/?lang=cy](http://www.planningaidwales.org.uk/?lang=cy)

**Atodiad 1**

**Diagram o'r broses**

